# Rhaglen Hyfforddiant Sgiliau Ymchwil 2023–24



Gwefan

@OlraddCCC

@CCCOlradd

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

# Rhaglen Hyfforddiant Sgiliau Ymchwil
2023-24

## Cyflwyniad

Croeso i Raglen Hyfforddiant Sgiliau Ymchwil 2023-24.

Darperir yr hyfforddiant sgiliau ymchwil hwn gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol mewn partneriaeth â sefydliadau addysg uwch Cymru. Hon yw'r unig raglen o hyfforddiant ymchwil a geir yn gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae Rhaglen Sgiliau Ymchwil y Coleg yn agored i fyfyrwyr ôl-radd o bob prifysgol, ac wedi'i theilwra'n arbennig er mwyn cefnogi a chynnig hyfforddiant ymarferol i bob ymchwilydd gyrfa-gynnar – p'un a wyt ti'n astudio ar gyfer gradd Meistr, MPhil, doethuriaeth neu ymchwil ôl-ddoethurol.

Bydd yr hyfforddiant yn ymdrin â materion megis trefnu a chynllunio dy ymchwil, trin a thrafod ffynonellau, dulliau ymchwil, sgiliau ysgrifennu academaidd, ayyb, yn ogystal â materion yn ymwneud ag iechyd a lles, a hyrwyddo gyrfa a chyflogadwyedd.

Darperir yr hyfforddiant gan gyflwynwyr profiadol, boed yn staff academaidd sy'n ymchwilwyr profiadol, neu'n staff proffesiynol mewn unedau cefnogi.

Yn ôl yr arfer, daw'r Rhaglen i ben gyda chynhadledd ymchwil ryngddisgyblaethol ar ddiwedd mis Mehefin 2024.

Darperir yr holl hyfforddiant am ddim, ac mae croeso mawr i bawb - beth bynnag yw dy bwnc a phwy bynnag sy'n dy gyllido.

Mae'r rhaglen hefyd yn ffordd o greu cymuned ac yn helpu meithrin ymdeimlad o berthyn, felly ymuna â chymuned ôl-raddedig y Coleg a manteisia ar y cyfleoedd sydd ar gael i ti.

**Cofrestru**
Galli gofrestru ar gyfer y cyrsiau drwy gwblhau'r **ffurflen hon**.

**Gwybodaeth bellach**
Bydd gwybodaeth am yr hyfforddiant yn ogystal â chyfleoedd perthnasol i'r byd ôl-raddedig yn cael eu rhannu trwy ein cyfrifon Twitter ac Instagram.


I ymuno â'n rhestr e-bost, ymaeloda â'r Coleg Cymraeg fel myfyriwr ôl-radd drwy'r ddolen hon.

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau trwy e-bost at Dr Manon James - m.james@colegcymraeg.ac.uk

# Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr Vitae

Datblygwyd y Rhaglen mewn cydweithrediad â'r sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, ac mae'r holl weithdai yn seiliedig ar y meysydd a adwaenir gan Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr Vitae ar gyfer cynhyrchu a meithrin ymchwilwyr effeithiol.

Bydd nifer o'r gweithdai yn pontio fwy nag un maes, ond nodir mewn cromfachau yn y rhestr ar gefn y daflen hon beth fydd prif sylw'r gweithdai a sut maen nhw'n perthyn i Fframwaith Vitae.



# Rhaglen Hyfforddiant Sgiliau Ymchwil

## 2023-24

| Caerfyrddin | 15 Medi 2023 |
|---|---|
| Cwrs cynefino ar gyfer deiliaid newydd Ysgoloriaethau Ymchwil y Coleg | |

| Aberystwyth | 12 - 13 Hydref 2023 |
|---|---|
| Cyflwyniad i ymchwil (B1) | Cynllunio a chyflwyno posteri ymchwil (D2) |
| Dod o hyd i wybodaeth - dechrau arni (catalogau llyfrgell, cyfnodolion electronig, a thraethodau ymchwil)(A1) | Dulliau ymchwil yn y gwyddorau (A1) |
| Llunio adolygiad llenyddol (C2) | Dulliau ymchwil yn y celfyddydau a'r dyniaethau (A1) |
| Taith a chyflwyniad i'r Llyfrgell Genedlaethol (A1) | Rheoli'ch goruchwyliwr (D1) |
| Gosod nodau ac amcanion ar gyfer ymchwilwyr (B2) | |

# Rhaglen Hyfforddiant Sgiliau Ymchwil

## 2023-24

| **Bangor** | **14 - 15 Tachwedd 2023** |
|---|---|
| Rhoi graen ar eich gwaith (sgiliau astudio) (A3) | Cymraeg ar y cyfrifiadur (A1) |
| Sgiliau cyfathrebu a chyflwyno (D2) | Cydweithio ar gyfer ymchwilwyr (D1) |
| Cyfieithu, trawsieithu a rheoli termau (A1) | Methodoleg dyfynnu a chyfeirio at ffynonellau (C2) |
| Hawlfraint ac eiddo deallusol (C1) | Rheoli amser a phwysau gwaith (B2) |

| **Caerdydd** | **13 - 14 Rhagfyr 2023** |
|---|---|
| Ysgrifennu academaidd (A3) | Ymchwil a chyhoeddi (D2) |
| Cyflwyno ymchwil gwyddonol (D2) | Cyrchu a deall archifau (A1) |
| Yr ymchwilydd ansoddol (A2) | Sgiliau Microsoft i fyfyrwyr ymchwil (A1) |
| Trefnu a rheoli eich ymchwil (C2) | Paratoi a chyflwyno papur cynhadledd (D2) |

| **Bangor** | **30 - 31 Ionawr 2024** |
| --- | --- |
| Ymdopi â newid: gorffen yn y brifysgol (B2) | Paratoi at y Viva (C2) |
| Yr ymchwilydd mentrus: adnabod eich sgiliau (C3) | Cyfrannu at waith tîm (D1) |
| Cynllunio gyrfa a chwilio am swyddi (B3) | Paratoi CV a chais effeithiol am swydd (B3) |
| Cyfathrebu a rhwydweithio digidol effeithiol (B3) | Cyflwyno'ch hun yn broffesiynol mewn cyfweliad (B3) |

| **Met Caerdydd** | **1 Mai 2024** |
| --- | --- |
| Cwrs sgiliau addysgu i fyfyrwyr ôl-radd | |

| ***Lleoliad i'w gadarnhau*** | **27 - 28 Mehefin 2024** |
| --- | --- |
| Cyfarfod blynyddol y cynllun ysgoloriaethau ymchwil a Chynhadledd Ymchwil aml-ddisgybaethol y Coleg | |